

Atebion i Gwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 17 Tachwedd 2010

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.

[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

Cynnwys

- 2 Cwestiynau i'r Prif Weinidog
- 2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb
- 5 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes
- 6 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai
- 7 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
- 8 Cwestiynau i un o gynrychiolwyr Comisiwn y Cynulliad

Gofyn i Brif Weinidog Cymru

Andrew RT Davies (Canol De Cymru): Ers sefydlu'r Trydydd Cynulliad yn 2007, a yw'r cabinet wedi cyfarfod y tu allan i Gaerdydd, naill ai'n ffurfiol neu'n anffurfiol, ac os felly, a wnaiff y Prif Weinidog ddarparu dyddiadau, amseroedd a lleoliadau unrhyw gyfarfodydd o'r fath. (WAQ56756)

Rhoddyd ateb ar 30 Tachwedd 2010

Mae'r Cabinet wedi cwrdd unwaith y tu allan i Gaerdydd ers sefydlu'r Trydydd Cynulliad yn 2007. Cynhaliwyd cyfarfod Cabinet yn Swyddfa Llywodraeth Cynulliad Cymru ym Merthyr Tudful ddydd Llun 16eg Tachwedd 2009 rhwng 13:00 a 16:00 .

Gofyn i'r Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb

Andrew RT Davies (Canol De Cymru): Beth oedd y gyllideb wreiddiol arfaethedig ar gyfer adeiladu a dodrefnu tri adeilad newydd swyddfeydd Llywodraeth Cynulliad Cymru ym Merthyr, Llandudno ac Aberystwyth. (WAQ56745)

Ni ddarparwyd cyfieithiad

The construction and fit out costs for the three new offices were established in conjunction with our professional advisers over a number of years following extensive work to determine location, user requirements and design proposals. Construction contracts were then tendered in accordance with OJEU procurement procedures. In recognition of the complexity and commercial nature of these contracts, no overall budget was set for the construction and furnishing of the three new offices with budgets being determined over a number of years instead.

Merthyr Tydfil costs are outlined in the Project Closure Report on the internet which can be found at <http://wales.gov.uk/about/programmeforgovernment/strategy/locstrat/publications/merthyclosure/?lang=en>

The construction contract for Aberystwyth was an NEC3 Contract based on a Target Price which was agreed by all parties at commencement of the contract as a realistic estimate of the outturn cost of the project. The final agreed Target Price was £20.991m. The Welsh Assembly Government's final liability was £20.878m representing a saving of £112,920 against the agreed contractual Target Price.

The construction contract for Llandudno Junction was agreed with Pochin Construction at around £20m. The current construction contract outturn is expected to be £20.74m. The final account is currently being agreed with the Managing Agent.

All figures are exclusive of VAT.

Andrew RT Davies (Canol De Cymru): A wnaiff y Gweinidog roi manylion am gyfanswm costau datblygu swyddfeydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn Aberystwyth, o ran ffioedd proffesiynol, dodrefn rhydd ac offer TG, gyda ffigur ar wahân ar gyfer pob agwedd. (WAQ56746)

Ni ddarparwyd cyfieithiad

I will write to you and a copy of the letter will be placed on the internet.

Andrew RT Davies (Canol De Cymru): Cyn adeiladu swyddfa Llywodraeth Cynulliad Cymru yn Aberystwyth, faint o swyddi a ragwelwyd ar y safle, a faint sydd yno ar hyn o bryd. (WAQ56747)

Ni ddarparwyd cyfieithiad

The Aberystwyth office has capacity to accommodate 535 staff on an 8:10 basis (that is 8 desks for every 10 members of staff). This is a highly efficient use of space and is widely adopted in modern office environments in both the private and public sectors.

There are currently around 400 staff based at the office (including Countryside Council for Wales and Forestry Commission staff) and whilst it was never our intention to fill the office to capacity from the outset, the recent voluntary severance and early retirement scheme has affected overall staff numbers at Aberystwyth, as it has throughout the Welsh Assembly Government. However, the office is a long term investment and we continually review the available space and also look for possible additional non WAG organisations as tenants in line with business requirements.

Andrew RT Davies (Canol De Cymru): Cyn adeiladu swyddfa Llywodraeth Cynulliad Cymru yn Llandudno, faint o swyddi a ragwelwyd ar y safle, a faint sydd yno ar hyn o bryd. (WAQ56748)

Ni ddarparwyd cyfieithiad

The Llandudno Junction has capacity to accommodate 650 staff on an 8:10 basis (that is 8 desks for every 10 members of staff). This is a highly efficient use of space and is widely adopted in modern office environments in both the private and public sectors.

There are currently around 400 staff based at the office. A further 55 staff are scheduled to relocate from Mold, Bangor and St Asaph in March 2011 and a further 18 staff from the Countryside Council for Wales and the North Wales Valuation Tribunal will be co-located in the new office. Whilst it was never our intention to fill the office to capacity from the outset, the recent voluntary severance and early retirement scheme has affected overall staff numbers at Llandudno Junction, as it has throughout the Welsh Assembly Government. However, the office is a long term investment and we continually review the available space in line with business requirements.

Andrew RT Davies (Canol De Cymru): Cyn adeiladu swyddfa Llywodraeth Cynulliad Cymru ym Merthyr Tudful, faint o swyddi a ragwelwyd ar y safle, a faint sydd yno ar hyn o bryd. (WAQ56749)

Ni ddarparwyd cyfieithiad

The information requested on the anticipated number of posts can be found in the published Merthyr Tydfil Closure Report on the internet at: <http://wales.gov.uk/about/programmeforgovernment/strategy/locstrat/publications/merthyclosure/?lang=en>

There are currently around 400 staff based at the office and work is currently underway to roll out flexible working which will allow us to make better use of the current facilities and identify opportunities for further estate rationalisation.

Andrew RT Davies (Canol De Cymru): A wnaiff y Gweinidog roi manylion am gyfanswm costau datblygu swyddfeydd Llywodraeth Cynulliad Cymru ym Merthyr Tudful, o ran ffioedd proffesiynol, dodrefn rhydd ac offer TG, gyda ffigur ar wahân ar gyfer pob agwedd. (WAQ56750)

Rhoddyd ateb ar 06 Ionawr 2011

Cyhoeddir y costau hyn yn Adroddiad Terfynu Prosiect Merthyr Tudful ar y rhyngwyd a gellir eu gweld yn:
<http://wales.gov.uk/about/programmeforgovernment/strategy/locstrat/publications/merthyclosure/?lang=cy>

Andrew RT Davies (Canol De Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddarparu dadansoddiad o gostau cronfa ceir gweinidogion Llywodraeth Cynulliad Cymru, gan roi ffigurau ar gyfer pob mis dros y pedair blynedd diwethaf. (WAQ56754)

Ni ddarparwyd cyfieithiad

The monthly expenditure for the last four full financial years is shown below:

Month	2006/07	2007/08	2008/09	2009/10
April	£1,180	£897	£2,142	£7,102
May	£3,902	£3,444	£-4,690**	£11,450
June	£4,996	£127	£4,180	£11,468
July	£3,128	£0	£17,003	£146,801*
August	£6,540	£7,885	£1,187	£-25,555**
September	£3,678	£7,139	£574	£6,822
October	£3,709	£5,611	£25,955 2	£5,842
November	£5,877	£3,761	£14,122	£3,198
December	£3,484	£9,781	£7,775	£4,894
January	£3,039	£15,862 1	£17,194 3	£12,463 4
February	£724	£7,542	£5,781	£8,249
March	£25,312*	£157,302***	£9,968	£-4,014

The figures comprise the costs of vehicle purchase/sales, servicing/maintenance, fuel, insurance, road tax, and breakdown cover. They also include the cost of private hire cars and taxis which are used when the pool cars are not available.

*includes vehicle purchase costs

**includes vehicle sales credits

1 Includes period 9&10 fuel costs at £5.3k and annual insurance costs at £5.8k

2 Includes periods 5, 6 &7 fuel costs at £10k and £3k training costs

3 Includes annual insurance costs at £9.6k

4 Includes annual insurance costs at £10.7k

Andrew RT Davies (Canol De Cymru): A wnaiff y Gweinidog roi dadansoddiad misol o nifer y ceir yng nghronfa ceir gweinidogion Llywodraeth Cynulliad Cymru, gan roi ffigurau ar gyfer y pedair blynedd diwethaf. (WAQ56755)

Rhodddwyd ateb ar 06 Ionawr 2011

Dangosir lefelau gweithredu cerbydau'r Ffilyd Ceir Swyddogol yn ystod y pedair blynedd ariannol diwethaf yn y tabl isod. Yn gyffredinol dim ond pan brynir car newydd cyn i gar a waredir adael, a hynny am gyfnod byr, y ceir amrywiadau misol.

Blwyddyn	Lefel weithredu
2006/07	6*
2007/08	9
2008/09	9
2009/10	10

**yn cynnwys un cerbyd petrol/hybrid trydan ar dreial*

Andrew RT Davies (Canol De Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddarparu dadansoddiad o wariant misol Llywodraeth Cynulliad Cymru dros y pedair blynedd diwethaf ar aros dros nos mewn gwlad dramor, yn cynnwys lwfans cynhaliaeth a chostau llety. (WAQ56758)

Rhodddwyd ateb ar 06 Ionawr 2011

Ni chaiff dadansoddiad o'r gwariant misol yr eir iddo drwy arosiadau dros nos tramor ei gasglu ar hyn o bryd drwy'r systemau presennol. Dim ond drwy archwilio cofnodion adrannau unigol i nodi achosion penodol y gellid cael y wybodaeth hon ac felly ni ellir ei darparu oherwydd byddai costau casglu'r wybodaeth hon yn afresymol.

Andrew RT Davies (Canol De Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddarparu dadansoddiad o wariant misol Llywodraeth Cynulliad Cymru dros y pedair blynedd diwethaf ar aros dros nos yng Nghymru, yn cynnwys lwfans cynhaliaeth a chostau llety. (WAQ56759)

Rhodddwyd ateb ar 06 Ionawr 2011

Ni chaiff dadansoddiad o'r gwariant misol yr eir iddo drwy arosiadau dros nos ei gasglu ar hyn o bryd drwy'r systemau presennol. Dim ond drwy archwilio cofnodion adrannau unigol i nodi achosion penodol y gellid cael y wybodaeth hon ac felly ni ellir ei darparu oherwydd byddai costau casglu'r wybodaeth hon yn afresymol.

Andrew RT Davies (Canol De Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddarparu dadansoddiad manwl o gostau llety dros nos a chynhaliaeth a hawliwyd gan weision sifil pan oeddent yn aros dros nos yng Nghymru, gan nodi nifer y nosweithiau a hawliwyd fesul blwyddyn dros y pedair blynedd diwethaf. (WAQ56760)

Rhodddwyd ateb ar 06 Ionawr 2011

Ni chaiff dadansoddiad o'r llety dros nos a'r gynhaliaeth a hawlir ei gasglu ar hyn o bryd drwy'r systemau presennol. Dim ond drwy archwilio cofnodion adrannau unigol i nodi achosion penodol y gellid cael y wybodaeth hon ac felly ni ellir ei darparu oherwydd byddai costau casglu'r wybodaeth hon yn afresymol.

Gofyn i'r Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes

Andrew RT Davies (Canol De Cymru): A wnaiff y Gweinidog roi manylion ynglyn â faint o ysgolion cynradd yng Nghymru sy'n cynnig dysgu ieithoedd, heb gynnwys Cymraeg a Saesneg, yng

nghwricwllwm yr ysgol, gan ddadansoddi'r ffigurau fesul awdurdod lleol a dros y pedair blynedd diwethaf. (WAQ56744)

Rhoddyd ateb ar 30 Tachwedd 2010

Dim ond yn ystod tair blynedd gyntaf addysg uwchradd y mae dysgu ieithoedd tramor modern yn ofyniad statudol. Gall ysgolion cynradd gynnig iaith dramor fodern, yn ogystal â bodloni gofynion y cwricwllwm ysgol yng Nghymru, ar sail wirfoddol ac anstatudol. Nid oes gan Llywodraeth Cynulliad Cymru ddata ar nifer yr ysgolion cynradd sy'n dewis gwneud hyn.

Gofyn i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai

Paul Davies (Preseli Sir Benfro): Pa adnoddau ychwanegol y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu rhoi i Awdurdodau Lleol i fonitro a gorfodi'r Polisi Datblygu Un Blaned. (WAQ56783)

Rhoddyd ateb ar 30 Tachwedd 2010

Nid oes unrhyw adnoddau ychwanegol ar gael i fonitro a gweithredu'r polisiâu a gaiff eu cynnwys yn Nodyn Cyngor Technegol 6 Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy. Yn gyffredinol, dylai'r adnoddau sydd eu hangen i brosesu ceisiadau ddod o incwm ffioedd ceisiadau cynllunio, gydag awdurdodau lleol yn talu am gostau ychwanegol yn ymwneud â monitro a pherfformiad, gan gynnwys gofynion gwybodaeth statudol, o'u grant bloc. Fodd bynnag, rwy'n ymwybodol bod rhai awdurdodau cynllunio lleol yn codi ffioedd ychwanegol am fonitro cytundebau Adran 106. Dylai unrhyw ffioedd a godir fod yn rhesymol ac yn gymesur i'r costau sy'n deillio o waith monitro cytundeb Adran 106 gan yr awdurdod cynllunio lleol.

Paul Davies (Preseli Sir Benfro): Pa ganllawiau penodol y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'u rhoi i Awdurdodau Lleol i integreiddio prosiectau yn y Polisi Datblygu Un Blaned, yn benodol gyda chymunedau coll. (WAQ56751)

Rhoddyd ateb ar 30 Tachwedd 2010

Mae Nodyn Cyngor Technegol 6 - Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy yn cynghori y dylid cyflwyno cynllun rheoli gyda cheisiadau cynllunio ar gyfer Datblygiadau Un Blaned a leolir mewn cefn gwlad agored. Rhaid i'r cynllun gynnwys asesiad o effaith ar gymuned er mwyn asesu unrhyw effeithiau posibl (cadarnhaol neu negyddol) ar y gymuned letyol a darparu sail ar gyfer nodi a gweithredu unrhyw fesurau lliniaru a all fod yn angenrheidiol. Mae canllawiau ymarfer yn cael eu llunio ar hyn o bryd i roi eglurhad pellach o gynnwys cynlluniau rheoli, gan gynnwys asesiad o effaith ar gymuned.

Paul Davies (Preseli Sir Benfro): Cyn rhoi'r Polisi Datblygu Un Blaned ar waith, pa dystiolaeth a gafodd Llywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau bod y polisi hwn yn gynaliadwy ac yn bosibl ei gyflawni. (WAQ56752)

Rhoddyd ateb ar 30 Tachwedd 2010

Mae sail dystiolaeth sylweddol yn tanategu Polisi Datblygu Un Blaned. Mae ymchwil perthnasol yn cynnwys Polisi ac Arfer Cynllunio Datblygiad Effaith Isel a gomisiynwyd gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru a Datblygiad Effaith Isel - Ymchwil Bellach a gomisiynwyd gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Mae arfer lleol, yn enwedig Polisi 52 o'r Cynllun Datblygu Unedol ar y Cyd ar gyfer Sir Benfro a chanllawiau cynllunio atodol cysylltiedig, hefyd wedi llywio'r polisi.

Mae'r polisi hefyd wedi bod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus sylweddol. Cyhoeddwyd polisi cynllunio drafft ar ddatblygiad effaith isel gyntaf yn yr ymgynghoriad Newidiadau i Bolisiâu Cynllunio i Ategu Datblygiad Cynaliadwy mewn Ardaloedd Gwledig: Diwallu Anghenion Tai (Gorffennaf 2008). Dilynydd hyn gan ymgynghoriad ar Nodyn Cyngor Technegol Drafft 6 Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy (Gorffennaf 2009).

Paul Davies (Preseli Sir Benfro): A wnaiff y Gweinidog egluro'r diffiniad o 'Ôl Troed Di-Garbon' yn y Polisi Datblygu Un Blaned, gan gofio y bydd rhywfaint o allyriadau carbon yn y rhan fwyaf o achosion wrth adeiladu eiddo dan y polisi hwn. (WAQ56753)

Rhodddwyd ateb ar 30 Tachwedd 2010

Mae Nodyn Cyngor Technegol 6 Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy yn egluro y dylai Datblygiadau Un Blaned gyflawni ôl troed ecolegol cychwynnol o 2.4 hectar byd-eang fesul person neu lai o ran defnydd a dangos potensial clir i symud tuag at darged o 1.88 hectar byd-eang dros amser. Dylent hefyd fod yn ddi-garbon o ran adeiladwaith a defnydd.

Gall rhai arferion a deunyddiau adeiladu arwain at allyriadau carbon y dylid eu lliniaru trwy ddylunio a dewis deunyddiau'n ofalus. Mae gwneud defnydd helaeth o bren a chynhyrchion planhigion eraill, er enghraifft, yn arwain at storio carbon, gan lliniaru unrhyw ryddhau carbon a all ddigwydd ar gamau eraill yn ystod y broses adeiladu. Dylid manylu ar yr holl allyriadau carbon a'r carbon a gaiff ei storio gan elfen dadansoddi di-garbon Cynllun Rheoli Datblygiad Un Blaned. Ceir manylion pellach ar sut i gyfrifo'r ôl troed ecolegol a'r dadansoddiad di-garbon mewn canllawiau ymarferol sy'n cael eu llunio ar hyn o bryd.

Gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Andrew RT Davies (Canol De Cymru): A yw Cynghorau Iechyd Cymuned ledled Cymru yn cyflawni eu goblygiadau ar hyn o bryd ac a yw aelodaeth y Cynghorau yn gyflawn ers ad-drefnu'r byrddau iechyd. (WAQ56741)

Rhodddwyd ateb ar 30 Tachwedd 2010

Fe'ch cyfeiriaf at fy ateb ysgrifenedig i WAQ56713.

Andrew RT Davies (Canol De Cymru): Sawl grwp Gorchwyl a Gorffen sydd wedi'i sefydlu gan y Gweinidog er 2007 o fewn yr adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, gan ddarparu dadansoddiad blynyddol. (WAQ56742)

Rhodddwyd ateb ar 30 Tachwedd 2010

Ers 2007, rwyf wedi sefydlu cyfanswm o 27 o grwpiau Gorchwyl a Gorffen o fewn yr adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol:

2007: Un
2008: 10
2009: 15
2010 (hyd yn hyn): Un

Andrew RT Davies (Canol De Cymru): Sawl Gweithgor sydd wedi'i sefydlu gan y Gweinidog er 2007 o fewn yr adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, gan ddarparu dadansoddiad blynyddol. (WAQ56743)

Rhodddwyd ateb ar 30 Tachwedd 2010

Nid yw'r wybodaeth hon ar nifer y Gweithgorau a'u cylch gwaith yn cael ei chadw'n ganolog gan y gall naill ai'r Gweinidog neu'r swyddogion eu sefydlu. Gall cwmpas y Gweithgorau hyn a hyd eu bodolaeth amrywio'n sylweddol yn dibynnu ar y cylch gorchwyl.

Andrew RT Davies (Canol De Cymru): A wnaiff y Gweinidog amlinellu pa gyfyngiadau, os o gwbl, a roddir ar Fyrddau Iechyd Lleol wrth brynu gofal hosbis preswyl y tu allan i'w ffiniau. (WAQ56757)

Rhodddwyd ateb ar 30 Tachwedd 2010

Rwy'n disgwyl i Fyrddau Iechyd Lleol gynllunio a sicrhau gwasanaethau iechyd mor lleol â phosibl ond nid wyf wedi gosod unrhyw gyfyngiadau ffurfiol o ran ble a sut y byddant yn sicrhau gofal lliniarol a gofal diwedd oes ar gyfer eu poblogaethau preswyl.

Gofyn i un o gynrychiolwyr Comisiwn y Cynulliad

Andrew RT Davies (Canol De Cymru): A wnaiff y Comisiynydd ddarparu dadansoddiad yn egluro'r cynnydd yn y gyllideb ar gyfer parcio ceir yn 2011/12, fel y nodir yn y gyllideb ddrafft. (WAQ56737)

Rhodddwyd ateb ar 18 Tachwedd 2010

William Graham AC, Comisiynydd Adnoddau'r Cynulliad:

Datblygwyd cyllideb parcio 2010-11 yn ystod haf 2009 ar sail y gost a amcangyfrifwyd ar gyfer y flwyddyn ariannol honno. Profwyd bod yr amcangyfrif hwnnw'n annigonol a chaiff tua £140,000 ei dalu mewn costau parcio yn y flwyddyn bresennol (2010-11). Mae'r gyllideb ar gyfer 2011-12 wedi cael ei osod ar £140,000.

O ystyried costau cynyddol parcio ceir a'r pwysau cyllidebol sy'n wynebu'r Cynulliad, cynhaliwyd adolygiad o drefniadau parcio ceir, costau a chyllid eleni. O ganlyniad i hyn, bydd cynllun codi tâl am barcio yn cael ei gyflwyno ddechrau mis Ionawr 2011, sy'n anelu at adennill cyfran sylweddol o'r costau.

Rydym wedi amcangyfrif yn ofalus mai'r incwm o daliadau parcio ceir fydd £100,000 yn ystod 2011-12. Mae'r ffigwr hwn yn ymddangos fel rhan o'r incwm refeniw yn y gyllideb ddrafft a gyhoeddwyd. Yn nhermau net, rydym yn amcangyfrif y bydd hyn yn lleihau'r gofyniad cyllidebol cyfan (yn amodol ar ddefnydd) i £40,000.

Andrew RT Davies (Canol De Cymru): Beth oedd cost prynu / cost llogi dan gytundeb car newydd y Llywydd, a faint o'r gost a adenillwyd drwy werthu'r hen gar. (WAQ56738)

Rhodddwyd ateb ar 18 Tachwedd 2010

William Graham AC, Comisiynydd Adnoddau'r Cynulliad:

Mae'r cerbyd swyddogol presennol yn destun cytundeb llogi drwy gontract. Hyd y brydles yw tair blynedd, sy'n costio £7,889.64 y flwyddyn. Mae hyn yn cynnwys gwasanaethu, cynnal a chadw ac yswiriant torri i lawr.

Cafodd y cerbyd swyddogol diwethaf ei brynu yn llwyr. Os caiff y gost prynu ei wasgaru dros y pedair blynedd a hanner lle'r oedd y cerbyd yn eiddo i'r Cynulliad, y canlyniad yw tua £8,800 y flwyddyn. Roedd costau gwasanaethu a chynnal a chadw yn ychwanegol at hyn. Gwerthwyd y car am bris o £6,300.

Andrew RT Davies (Canol De Cymru): Gan gyfeirio at WAQ56708, a wnaiff y Comisiwn egluro'r amrywiad misol sylweddol mewn costau'n ymwneud ag uned plismona'r Cynulliad, gan roi dadansoddiad o sut y caiff costau misol eu priodoli. (WAQ56739)

Rhoddyd ateb ar 18 Tachwedd 2010

William Graham AC: Comisiynydd Adnoddau'r Cynulliad

Darparwyd y tabl isod, sy'n dangos cost flynyddol uned plismona'r Cynulliad dros y pedair blynedd ariannol ddiwethaf, mewn ymateb i WAQ56708.

	2006-07	2007-08	2008-09	2009-10
Ebrill	£34,480	£44,242	£45,548	£53,803
Mai	£30,694	£38,157	£39,258	£45,241
Mehefin	£31,953	£37,964	£38,976	£46,396
Gorffennaf	£31,092	£38,637	£44,876	£43,178
Awst	£30,471	£38,640	£44,956	£44,413
Medi	£29,987	£44,985	£43,676	£44,678
Hydref	£30,196	£45,844	£49,205	£50,098
Tachwedd	£29,395	£44,066	£51,490	£49,850
Rhagfyr	£31,252	£38,375	£54,718	£55,127
Ionawr	£31,652	£37,855	£49,779	£48,411
Chwefror	£33,443	£38,936	£50,385	£50,237
Mawrth	£33,519	£45,981	£48,551	£51,000
Cyfanswm	£378,136	£493,682	£561,419	£582,433

Mae'r amrywiadau yn adlewyrchu prynu a chyflenwi offer arbenigol a chostau teithio a llety, sy'n amrywio o fis i fis yn dibynnu ar y dyletswyddau penodol a wnaed gan y swyddogion. Mae'r costau hyn hefyd yn adlewyrchu treuliau achlysurol a thaliadau goramser, gan gynnwys cyfraddau gwyliu banc. Mae'r amrywiadau mwy sylweddol yn adlewyrchu codiadau cyflog cynyddrannol ar adegau priodol o'r flwyddyn.

Mae'r cynnydd yn y gost rhwng mis Medi a mis Hydref 2008 yn adlewyrchu secondio dau swyddog heddlu ychwanegol i ddarparu gwasanaeth yn y Cynulliad Cenedlaethol ar benwythnosau.

Mae'r lleihad yn y gost rhwng mis Mai a mis Medi 2009 yn adlewyrchu ymddediad sarjant yr heddlu ar frig ei raddfa gyflog. Ni chafodd y swydd ei llenwi tan fis Hydref 2010 pan gymerwyd y swydd gan sarjant arall, nad oedd wedi cyrraedd brig ei graddfa gyflog gynyddrannol.

Roedd costau teithio yn 2009-10 yn uwch i dalu am gynllunio a pharatoi ar gyfer protest a ragwelwyd mewn perthynas â'r penderfyniad i ddifa moch daear.

Gellir priodoli'r gyfran uchaf o gostau misol i gyflogau swyddogion. Er mwyn dangos hyn, mae'r siart isod yn rhoi dadansoddiad o gyflogau swyddogion a gwario ategol o fis i fis ar gyfer 2009-10.

2009-10	Salaries	Other	Total
---------	----------	-------	-------

Atebion i Gwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 17 Tachwedd 2010

April	£53,085	£718	£53,803
May	£43,292	£1,949	£45,241
Jun	£45,871	£525	£46,396
July	£43,089	£89	£43,178
Aug	£44,321	£92	£44,413
Sept	£44,670	£8	£44,678
Oct	£49,443	£655	£50,098
Nov	£49,729	£121	£49,850
Dec	£50,972	£4,155	£55,127
Jan	£48,380	£31	£48,411
Feb	£50,062	£175	£50,237
Mar	£50,865	£135	£51,000
Total	£573,779	£8,653	£582,433

Andrew RT Davies (Canol De Cymru): Gan gyfeirio at WAQ56708, a wnaiff y Comisiwn egluro'r 54.2% o gynnydd yn y gyllideb ar gyfer uned heddlu'r Cynulliad rhwng 2006-07 a 2009-10. (WAQ56740)

Rhoddyd ateb ar 18 Tachwedd 2010

William Graham AC, Comisiynydd Adnoddau'r Cynulliad:

Mae'r cynnydd yn y gyllideb yn ymwneud â chyfuniad o ffactorau, sy'n cynnwys secondio dau Swyddog Heddlu llawn amser ychwanegol i roi mwy o gefnogaeth yn ystod yr wythnos fusnes ac ar gyfer trefniadau gweithio ar y penwythnos, a'r cynnydd cynyddrannol fel rhan o chytundebau cyflogaeth ac amodau yr Heddlu. Mae'r cyfnod hwn hefyd yn adlewyrchu codiadau cyflog a drafodwyd fel rhan o gytundeb dyfarniad cyflog yr Heddlu dros gyfnod penodol. Ceir manylion pellach yn yr ateb i WAQ56739.